

Adroddiad ar Reilffyrdd Cymunedol

Ebrill 2019



TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Cynnwys

Rhagair y Cyfarwyddwr

Crynodeb Gweithredol

Adroddiad Pennaeth Cenedlaethau'r Dyfodol a Rhanddeiliaid

Cyflwyniad

Partneriaethau Rheilffyrdd Cymunedol Newydd

Ariannu Partneriaethau Rheilffyrdd Cymunedol

- Datganiad yn cynnwys symiau ar gyfer y Partneriaethau a rhannu'r arian dros y 3 blynedd nesaf
- Arian ychwanegol

Rheilffyrdd Cymunedol – Ymrwymadau Lefel Gwasanaeth

Rheilffyrdd Cymunedol – Rheoli Cymunedau a Rhanddeiliaid

- Rheolwyr Cymunedau a Rhanddeiliaid (4)
- Llysgenhadon Cymunedol (11)
- Llysgenhadon Cymunedol dan Brentisiaeth (11)
- Cymorth marchnata

Cynllun Ymgysylltu Rheilffyrdd Cymunedol

- Cyflawni cynigion

Gwirfoddoli

- Mabwysiadu gorsafoedd

Cyfleusterau Cymunedol

- Canolfannau Cymunedol

Rheilffyrdd Cymunedol – Amserlen

Atodiadau – Proffiliau Partneriaethau Rheilffyrdd Cymunedol

Calon Cymru

Dyffryn Conwy

Lein y Cambrian

Caer/Amwythig

Y Gororau



Rhagair y Cyfarwyddwr



Colin Lea

Cyfarwyddwr Masnachol a Phrofiad y Cwsmer,
Gwasanaethau Rheilffyrdd TrC



James Price

Prif Weithredwr
TrC

Wrth i ni gychwyn ar ein taith i drawsnewid ein rhwydwaith trafniadaeth ar gyfer pobl Cymru, mae'n hanfodol ein bod yn gwerthfawrogi'r cyfraniad y gall cymunedau ei wneud at y rhwydwaith, ac yn sicrhau bod ein gwasanaethau'n cyfrannu cymaint ag y bo modd at ein cymunedau. Dyma pam ein bod yn canolbwyntio ar gydweithio i ddatblygu system drafniadaeth sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Nid y teithwyr sy'n defnyddio ein gwasanaethau yw'r unig rai ddylai gael budd ohonynt; mae'n bwysig eu bod yn cael effaith gadarnhaol ar yr economïau a'r cymunedau lleol rydym yn eu gwasanaethu hefyd, a dim ond drwy weithio ar y cyd yn y cymunedau y gallwn sicrhau hynny.

I gydnabod yr holl waith da sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan y Partneriaethau Rheilffyrdd Cymunedol (y Partneriaethau) a Mabwysiadwyr Gorsafoedd, byddwn yn buddsoddi i wella'r ddarpariaeth ar draws rhwydwaith Cymru a'r Gororau. Dros y pedair blynedd nesaf, byddwn yn mwy na dyblu nifer y Partneriaethau sy'n gwasanaethu'r rhwydwaith i gyd, ac yn ymestyn y cynllun mabwysiadu gorsafoedd i gynnwys 90% o'n gorsafoedd.

Bydd ein buddsoddiad yn dod â'n gorsafoedd yn nes at y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Mewn llawer o achosion ar hyd a lled Cymru, mae'r orsaf reilffordd yn cynnig mynediad at lawer o drefi a phentrefi. Er mwyn sicrhau bod y gorsafoedd yn groesawgar, byddwn yn buddsoddi i wella naws y

gorsafoedd, gan gynnwys gweddnewid hyd at 40 o safleoedd i fod yn gyfleusterau cymunedol cyfoes. Byddwn hefyd yn annog busnesau lleol bach i ddefnyddio manau segur yn y gorsafoedd i hyrwyddo cynnyrch a gwasanaethau lleol.

Mae marchnata yn elfen hanfodol o hyrwyddo'r cyfan sydd gan Gymru i'w gynnig, yn genedlaethol ac yn lleol. Gyda'n Partneriaethau a Mabwysiadwyr Gorsafoedd, byddwn yn gweithio gyda Croeso Cymru i lunio strategaeth Rheilffyrdd a Thwristiaeth i ddangos y golygfeydd godidog, yr atyniadau i ymwelwyr a'r busnesau lleol y gellir cael mynediad atynt o'r rhwydwaith trenau.

Yn ein hadroddiad cyntaf, roeddem yn awyddus i nodi ein dyheadau ar gyfer dod â chymunedau'n nes at y rhwydwaith trenau. Mae hwn yn gyfnod cyffrous i reilffyrdd Cymru, a hoffem i'r trigolion lleol a'r ymwelwyr fel y'i gilydd ymuno â ni ar y daith.



Crynodeb Gweithredol

Mae Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi Partneriaethau Rheilffyrdd Cymunedol ar draws ardal Cymru a'r Gororau, ac i hybu'r gwaith o ddatblygu eu rôl yn gwella'r rheilffyrdd ar gyfer cwsmeriaid lleol, busnesau ac ymwelwyr. Mae rhaglen y Partneriaethau'n canolbwyntio ar amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a bydd yn ceisio denu buddsoddiad i sicrhau gwerth cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol dros gyfnod Cytundeb y Grant.

Hwn yw'r adroddiad cyntaf i gwsmeriaid, a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno bob blwyddyn hyd ddiwedd y cytundeb hwn. Gan ystyried y dyddiad pan gymerodd yr awenau, mae wedi cytuno â Trafnidiaeth Cymru y dylai'r adroddiad hwn ymdrin â'r cyfnod hyd at ddiwedd yr ail flwyddyn (Ebrill 2020).

Bydd yr adroddiad yn egluro ein bwriad i gynyddu nifer y Partneriaethau o bump, sef y nifer ar hyn o bryd, i wyth erbyn diwedd yr ail flwyddyn (Ebrill 2020). Ein nod yn y pen draw yw sicrhau y bydd Partneriaeth yn cefnogi pob rhan o rwydwaith Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru erbyn mis Ebrill 2022. Byddwn hefyd yn egluro sut byddwn yn eu helpu i gyflwyno'u cynlluniau ar gyfer datblygu eu cymunedau yn y gorsafoedd ac o'u cwmpas.

Roedd yr adborth a gafwyd gan y Partneriaethau presennol yn amlinellu nodau cyffredin o ran arian yn yr hirdymor, cydweithio'n well a mynediad at gymorth ym maes marchnata. Er mwyn mynd i'r afael â'r nodau hyn, byddwn yn gwneud y canlynol:

- Darparu ymrwymiad sylweddol i gynyddu nifer y Partneriaethau. Erbyn y bedwaredd flwyddyn, bydd y rhain yn rhannu dros £660,000 y flwyddyn dros oes y cytundeb.
- Darparu dros £1.25m ar ffurf cronfa her dros oes Cytundeb y Grant, a hynny i ysbrydoli Partneriaethau i fod yn fwy uchelgeisiol; ysgwyddo swyddogaethau cydweithredol o ran adeiladau'r gorsafoedd, meysydd parcio, mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus, marchnata, a gwneud gwelliannau i amserlenni. Bydd yr achosion busnes a gyflwynir ar gyfer y cronfeydd her yn cael eu cymeradwyo drwy

ddangos eu heffaith gadarnhaol ar y gymuned leol.

- Gwella prosesau cydweithio drwy sefydlu strwythur trefniadaethol rhanbarthol newydd a fydd yn cefnogi'r Partneriaethau o ddydd i ddydd. Bydd pedwar Rheolwr Cymunedau a Rhanddeiliaid yn cael cefnogaeth gan hyd at 22 Llysgennad Cymunedol a Phrentisiaid er mwyn ein galluogi i feithrin cysylltiadau gwell gyda rhanddeiliaid lleol a rhanbarthol.
- Cyflwyno dwy swydd farchnata newydd a fydd yn gweithio gyda'r Partneriaethau i helpu i ddatblygu a chyflwyno cynlluniau marchnata penodol.
- Sefydlu pedair ystafell gyfarfod ranbarthol ar gyfer rheilffyrdd cymunedol mewn lleoliadau strategol ar draws Cymru. Bydd y cyfleusterau hyn yn cael eu sefydlu i gefnogi'r Partneriaethau ac yn cynnwys offer ar gyfer cyfathrebu a chyflwyniadau.
- Sefydlu ardal aelodau ar gyfer Partneriaethau a Mabwysiadwyr Gorsafoedd ar ein gwefan yn ystod 2019, lle bydd modd rhannu arferion gorau, rhoi arweiniad a darparu dogfennau cefnogol.

Rydym wedi neilltuo £40,000 y flwyddyn o'r ail flwyddyn ymlaen i gynnal chwe chynhadledd flynyddol ym maes rheilffyrdd cymunedol. Bydd y rhain hefyd yn cynnwys yr holl Swyddogion Rheilffyrdd Cymunedol a Mabwysiadwyr Gorsafoedd. Rydym yn cydnabod bod angen i ni weithio fel tîm yn y strwythurau rhanbarthol, ac mae ymgysylltu'n rheolaidd â'r holl rhanddeiliaid yn allweddol er mwyn cael y rheilffordd rydym yn dyheu am ei chael.

Byddwn hefyd yn cysylltu â chyrrff twristiaeth rhanbarthol i lunio strategaeth rheilffyrdd a thwristiaeth integredig, yn unol â strategaeth "Ffordd Cymru" Croeso Cymru. Y nod yw helpu busnesau lleol i gynnig eu gwasanaethau a'u cynnyrch i'r farchnad dwristiaeth yn y DU ac yn rhyngwladol, sy'n cynyddu o hyd. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, cynhaliwyd ein gweithdy Rheilffyrdd a Thwristiaeth cyntaf. Mae hwn yn cychwyn y broses o ddwyn ynghyd yr holl waith da sy'n cael ei wneud gan y Partneriaethau a grwpiau twristiaeth amrywiol fel rhan o strategaeth Ffordd Cymru.



Adroddiad Pennaeth Cenedlaethau'r Dyfodol a Rhanddeiliaid

Cyflwyniad

Rydym yn dechrau taith newydd – taith i drawsnewid gwasanaethau trên i bobl Cymru a'r Gororau. Ond sut mae posib i ni lwyddo heb y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu? Mae deall gobeithion a dyheadau ein cwsmeriaid yn hanfodol er mwyn datblygu gwasanaeth sy'n gweithio i'n cwsmeriaid ac sy'n dwyn cyfleoedd i'r pentrefi, y trefi a'r dinasoedd sy'n cael eu gwasanaethu gennym ni.


Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu ein cynlluniau ariannu manwl ar gyfer rheilffyrdd cymunedol a mabwysiadu gorsafedd dros y tair blynedd nesaf. Ar ben hyn, mae'n nodi'r dull cydweithredol y bwriadwn ei ddatblygu gyda'n cymunedau – heddiw ac yn y dyfodol.

Mae hwn yn gyfnod cyffrous i bawb sy'n gysylltiedig â'r rheilffyrdd yng Nghymru a'r Gororau, a byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i sicrhau bod ein buddsoddiad a'n hymdrechion cyffredin yn dwyn budd i gwsmeriaid a chymunedau lleol. Mae ein cytundeb gwasanaethau rheilffyrdd yn ein hannog i wneud ein gorau glas i sefydlu rhagor o Partneriaethau ar gyfer cymunedau ar draws ein rhwydwaith. Mae ein cynlluniau'n mynd y tu hwnt i'r cais gwreiddiol gan ein bod yn bwriadu sefydlu tair Partneriaeth arall yn ystod yr ail flwyddyn. Mae hyn yn rhan o'n cynllun i sefydlu saith Partneriaeth ychwanegol, a fydd yn golygu cyfanswm o 12 Partneriaeth erbyn y bedwaredd flwyddyn, a'r rheini ar waith ym mhob rhan o rwydwaith Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru. Rydym yn benderfynol o sicrhau bod pob cymuned ym mhob rhan o'r rhwydwaith yn cael cyfle i elwa o'r buddsoddiad hwn.

Cyflwyno Partneriaethau Rheilffyrdd Cymunedol newydd

Rydym yn cydnabod bod cyflwyno Partneriaethau newydd yn dipyn o her. Er mwyn cael help i wneud hyn, byddwn yn gofyn am gymorth gan Gymdeithas y Partneriaethau Rheilffyrdd Cymunedol, Cynghorau Gwirfoddol Cymunedol a grwpiau gwirfoddoli lleol eraill o amgylch Cymru a'r Gororau.

Partneriaethau Rheilffyrdd Cymunedol Newydd



Figur 1. Partneriaethau Rheilffyrdd Cymunedol Newydd

Mae gweithredu cymunedol wrth ei natur yn golygu datblygu o lawr gwlad i fyny, ac nid yw'n rhywbeth a orfodir o'r canol. Byddwn yn creu'r amodau a fydd yn cynorthwyo mudiadau cymunedol i dyfu, gan gynnal cynadleddau ar gyfer mudiadau cymunedol sy'n ymwneud â phrosiectau rheilffyrdd cymunedol ar hyn o bryd, neu a allai fod yn awyddus i wneud hynny yn y dyfodol. Nid gwaith hawdd yw rhedeg prosiect Rheilffordd Gymunedol sy'n cael effaith wirioneddol ar yr ardal leol. Mae angen cymorth ymarferol ac arian priodol a sefydlog er mwyn sicrhau canlyniadau. Byddwn yn darparu cymorth ariannol i gefnogi a galluogi gweithgarwch rheilffyrdd cymunedol nas gwelwyd erioed mo'i debyg gan rwydwaith Cymru a'r Gororau; dros £1.45m erbyn y drydedd flwyddyn¹, i wneud yn siŵr bod Partneriaethau'n meddu ar y rhyddid a'r sefydlogrwydd ariannol i roi cynnig ar bethau newydd ac i greu cysylltiadau rhwng y gymuned a'r rheilffordd.

¹Mae'r ffigur hwn yn cynnwys arian Partneriaethau a Mabwysiadu Gorsafedd, cronfeydd her, hyfforddi Partneriaethau a chwe chynhadledd flynyddol.



Rheilffyrdd Cymunedol – Arian

Rydym wedi cynnal trafodaethau â'r bum Partneriaeth sy'n bodoli ar hyn o bryd er mwyn sefydlu nodau ac anghenion pob partneriaeth, a'r arian sydd ei angen. Rydym yn ymwybodol bod Partneriaethau, fel llawer o raglenni cymunedol eraill, yn wynebu hinsawdd ariannol heriol sy'n eu hatal rhag cyrraedd eu nod. Ar ôl ymgynghori â'n Partneriaethau, mae pawb wedi cytuno i rannu'r arian yn yr ail flwyddyn fel y nodir yn Ffigur 2 isod. Mae hwn hefyd yn

nodi cyllideb arfaethedig hyd at Flwyddyn 4, ond bydd y dyraniadau terfynol yn cael eu pennu ar ôl rhagor o ymgynghori â'n Partneriaethau a'r Bwrdd Cymunedau a Rhanddeiliaid.

Yn unol â Chytundeb y Grant, gallwn gadarnhau bod y Partneriaethau wedi cael eu hariannu ar gyfer y flwyddyn gyntaf, sef £90,000, sy'n ddyraniad rhan o flwyddyn.

Class	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4
Partneriaethau Rheilffyrdd Cymunedol	2019/20	2020/21	2021/22
Arian y Partneriaethau	£440,000	£550,000	£660,000

Ffigur 2 – Arian y Partneriaethau

Rheilffyrdd Cymunedol – Arian ychwanegol

Er mwyn cefnogi Rheilffyrdd Cymunedol, rydym hefyd yn ymrwymo arian ychwanegol fel y nodir yn ffigur 3 isod. Hoffem ysbrydoli'r Partneriaethau i fod yn fwy uchelgeisiol, gan ysgwyddo swyddogaethau cydweithredol i ddatblygu gorsafoedd, ynghyd â gwelliannau

o ran gwasanaethau a marchnata. Rydym yn sylweddoli bod gan bob Partneriaeth ei huchelgais a'i hanghenion ei hun, ac felly byddwn yn darparu portffolio o gyfleoedd ariannu ychwanegol a fydd yn galluogi pob Partneriaeth i ddatblygu ar draws sbectrwm eang o feysydd.

Cymorth ychwanegol	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4
Y Gronfa Her	£60,000	£70,000	£80,000
Arian ar gyfer Mabwysiadu Gorsafoedd	£49,500	£55,500	£61,500
Cynadleddau Blynyddol	£40,000	£40,000	£40,000
Cronfa hyfforddi Cymdeithas y Partneriaethau Rheilffyrdd Cymunedol	£12,000	£12,000	£12,000
Cymorth Cyfranogaeth Cymru	£15,000	£15,000	£15,000
Cyfanswm	£176,500	£192,500	£208,500

Ffigur 3 – Arian ychwanegol ar gyfer Rheilffyrdd Cymunedol

Rheilffyrdd Cymunedol – Ymrwymadau Lefel Gwasanaeth

Bydd y Partneriaethau Rheilffyrdd Cymunedol a TrC yn cytuno ar Ymrwymadau Lefel Gwasanaeth Rheilffyrdd Cymunedol o fewn 6 mis i'r dyddiad cychwyn. Bydd y rhain yn cynnwys:

- Amseroedd ymateb ar gyfer ymholiadau'r Partneriaethau.
- Rhannu data teithwyr yn ôl taith.
- Mynediad at weithwyr sy'n arbenigo mewn marchnata, i gynorthwyo a chefnogi'r gwaith o lunio cynlluniau marchnata.
- Mynediad at arbenigwyr ar amserlenni i helpu i ddatblygu cyfleoedd i wella gwasanaethau.
- Darparu cymorth ym maes caffael i helpu i ddatblygu'r cysyniad o Uned Fusnes Gymunedol.

- Presenoldeb rheolwyr mewn cyfarfodydd.
- Cynnig cyfleoedd teithio am ddim i gynrychiolwyr Cymdeithas y Partneriaethau Rheilffyrdd Cymunedol a'r Partneriaethau ar gyfer busnes sy'n ymwneud â Phartneriaethau Rheilffyrdd Cymunedol.

Mae fersiwn ddrafft o Ymrwymadau Lefel Gwasanaeth y Rheilffyrdd Cymunedol wedi cael ei rhoi i bob Partneriaeth er mwyn cael sylwadau. Bydd popeth wedi cael ei ffurfioli erbyn mis Mai 2019. Bydd yr Ymrwymadau'n cael eu hadolygu bob tair blynedd, a bydd unrhyw newidiadau'n cael eu cytuno gyda TrC.



Grŵp Llywio Cenedlaethol y Rheilffyrdd Cymunedol

Mae'r Adran Drafnidiaeth, drwy ei Strategaeth Rheilffyrdd Cymunedol, a gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, yn dangos ei hymrwymiad i gefnogi'r gwaith o ddatblygu Rheilffyrdd Cymunedol ar draws y DU.

Mae'n bleser gennym ddweud bod Gwasanaethau Rheilffyrdd TrC wedi cael gwahoddiad i fod yn aelodau o Grŵp Llywio Cenedlaethol y Rheilffyrdd Cymunedol. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf yn Sheffield ddydd Llun 11eg Mawrth 2019.

Rheilffyrdd Cymunedol – Ymgysylltu â Chymunedau a Rhanddeiliaid

Yn ystod y cyfnod bidio, daeth yn amlwg y byddai'r Partneriaethau'n croesawu gwell cysylltiadau a chyfathrebu â'r Gweithredwr a'r Partner Datblygu llwyddiannus. I ymateb i hyn, rydym yn cyflwyno strwythur rheoli newydd sy'n rhoi sylw i Gymunedau a Rhanddeiliaid. Bydd hwn yn cefnogi gweithgareddau cymunedol lleol a rhanbarthol.

- Bydd pedwar Rheolwr Cymunedau a Rhanddeiliaid Rhanbarthol, wedi'u recriwtio yn y flwyddyn gyntaf, yn gweithio ar draws ardal Cymru a'r Gororau. Byddant yn gweithio ar y cyd â'r Partneriaethau Rheilffyrdd Cymunedol a chymunedau rhanbarthol i ysbrydoli trigolion ac ymwelwyr i ddefnyddio'r gwasanaeth rheilffyrdd ym mhob rhan o'r rhwydwaith. Gan weithio gyda'r holl rhanddeiliaid priodol, byddant yn rhannu cynnydd yng nghynlluniau'r Gweithredwr a'r Partner Datblygu ac yn pennu sut gall y rheilffordd gefnogi datblygiadau economaidd a chymdeithasol drwy welliannau posib i wasanaethau ac i orsafoedd. Byddant hefyd yn cysylltu â'r sector twristiaeth rhanbarthol i helpu i farchnata'r atyniadau lleol.

- A'r rheini'n atebol i'r Rheolwyr Cymunedau a Rhanddeiliaid, bydd 11 Llysgennad Cymunedol wedi'i gyflogi erbyn mis Ebrill 2020, ynghyd ag 11 Llysgennad Cymunedol dan Brentisiaeth erbyn mis Ebrill 2021. Byddant wedi'u lleoli ar draws ardal Cymru a'r Gororau ac yn gweithio gyda'r Partneriaethau, cymunedau lleol, y sectorau addysg ac iechyd, mudiadau'r trydydd sector a busnesau lleol, i feithrin naws cymunedol o amgylch yr orsaf ac annog pobl newydd i ddefnyddio'r rheilffyrdd. Byddant yn bobl sy'n cael eu cyflogi'n lleol ac sy'n teimlo'n angerddol ynglŷn â gwella eu cymunedau.
- O'r ail flwyddyn ymlaen, bydd Rheolwr Marchnata Partneriaethau a Chynorthwydd Marchnata Cymunedol yn cael eu cyflogi i helpu'r Partneriaethau i lunio a chyflwyno'u cynlluniau marchnata unigol, gan greu neges gyson wrth hyrwyddo'r rhwydwaith. Fel tîm, a drwy gydweithio â Croeso Cymru, byddwn yn hybu'r broses o gydlyn gweithgareddau marchnata ac yn gwneud yn siŵr bod trenau'n dod yn rhan bwysig o strategaeth ddeg mlynedd "Ffordd Cymru" Croeso Cymru. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, cynhaliwyd y gweithdy marchnata cyntaf. Mae hwn wedi helpu i lunio fersiwn ddrafft y Strategaeth Rheilffyrdd a Thwristiaeth, a fydd wedi cael ei lunio erbyn mis Ebrill 2019.



Cynlluniau ar gyfer Ymgysylltu

Bydd gwaith ymgysylltu ffurfiol yn cael ei wneud yn gyson drwy'r cynllun ymgysylltu, fel y mae ffigur 5 isod yn ei ddangos. Mae'r cynllun hwn wedi cael ei gymeradwyo gan y Partneriaethau,

a byddwn yn monitro pa mor effeithiol ydyw dros y 12 mis nesaf. Mae pawb wedi cytuno ar y cylch gorchwyl a'r mynychwyr er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn rhoi sylw i bob agwedd ar Reilffyrdd Cymunedol.

Teitl	Pwrpas	Pryd
Cynadleddau Partneriaethau Rheilffyrdd Cymunedol/ Mabwysiadu Gorsafoedd	Cynadleddau rhanbarthol i rannu cynlluniau Gwasanaethau Rheilffyrdd TrC, i ddod i adnabod ein gilydd ac i rannu arferion gorau.	Blynyddol – cynhelir y cynadleddau cyntaf ym mis Mai 2019
Y Bwrdd Cymunedau a Rhanddeiliaid	Rhannu cynnydd y cynlluniau arfaethedig. Gwella'r cydweithio rhwng rhanddeiliaid, trafod cyfleoedd marchnata posib a gwelliannau posib i'r gwasanaeth er mwyn hybu datblygiadau economaidd a chymdeithasol a chynnydd yn lefel y gefnogaeth.	Bob chwarter – cynhelir y cyfarfod cyntaf ym mis Mehefin 2019
Cyfarfodydd Partneriaethau Rheilffyrdd Cymunedol Cymru a'r Gororau	Rhannu cynnydd yn erbyn cynlluniau busnes, rhannu arferion gorau a chofnodi unrhyw gynlluniau gwella posib.	Bob chwarter – Cynhelir y cyfarfod cyntaf ym mis Mai 2019
Fforymau Cymunedau a Rhanddeiliaid Rhanbarthol	Gwella'r cydweithio rhwng rhanddeiliaid, trafod cyfleoedd marchnata posib a gwelliannau posib i'r gwasanaeth er mwyn hybu cynnydd yn lefel y gefnogaeth	Bob chwarter – Cynhelir y cyfarfod cyntaf ym mis Mehefin 2019
Cyfarfod Marchnata Rheilffyrdd a Thwristiaeth	Adolygu'r Cynllun Marchnata Rheilffyrdd a Thwristiaeth, trafod a chynllunio digwyddiadau sydd ar y gweill	Angen cytuno ar hyn

Figure 5: Community Rail Engagement plan



Gwirfoddoli

Mae'n ffaith bod cyfleoedd i bobl a/neu grwpiau roi o'u hamser yn wirfoddol yn dwyn llawer o fanteision. Yn ogystal â'r manteision o ran iechyd, gall gwirfoddoli hefyd wella cynhwysiant cymdeithasol, helpu pobl i ddysgu sgiliau newydd a magu hyder, a rhoi cyfle i gwrdd â phobl newydd a gwneud ffrindiau newydd. Gyda chymorth Cyfranogaeth Cymru a'r Cynghorau

Gwirfoddol Sirol, byddwn yn estyn allan at gymunedau i ddod o hyd i ragor o gyfleoedd i wirfoddoli yn ardal Cymru a'r Gororau. Byddwn yn teithio drwy Gymru benbaladr yn agor y drysau i bobl sy'n awyddus i gymryd rhan. Bydd adroddiad am ein llwyddiant yn hyn o beth i'w weld yn yr Adroddiad nesaf ar Reilffyrdd Cymunedol.

Mabwysiadu Gorsafoedd

Mae mabwysiadu gorsafoedd yn ffordd wych o ennyn diddordeb cymunedau yn y rheilffordd. Mae gorsafoedd yn rhoi mynediad i lawer o drefi a phentrefi, ac mae mabwysiadwyr gorsafoedd ar hyd a lled Cymru wedi ymgymryd â llawer o brosiectau i wella'r naws groesawgar a geir ynddynt, a hynny drwy arddio, gwaith celf a chaffis sy'n cael eu rhedeg gan y gymuned.

Mae angen i ni wneud yn siŵr ein bod yn cynnwys Mabwysiadwyr Gorsafoedd wrth rannu ein cynlluniau, a'n bod yn cefnogi eu dyheadau. Mae ein strwythur newydd ar gyfer rheoli rhanddeiliaid ar lefel ranbarthol wedi cael ei lunio mewn ffordd sy'n rhoi mwy o gyfleoedd i ni ymgysylltu â nhw'n rheolaidd. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, ac i gychwyn y broses honno, trefnwyd chwe chynhadledd ranbarthol ar gyfer Rheilffyrdd Cymunedol a Mabwysiadwyr Gorsafoedd. Bydd y cynadleddau

hyn yn cael eu cynnal yn ystod mis Mai 2019 ar draws ardal Cymru a'r Gororau. Bydd hyn yn caniatáu i ni gyflwyno ein cynlluniau, gwrandao ar ddyheadau, a rhoi cyfle i bobl siarad â'r uwch dîm rheoli. Yn ogystal â hyn, byddwn yn creu ardal i aelodau ar ein gwefan ar gyfer y Partneriaethau a'r Mabwysiadwyr er mwyn gallu cydweithio'n well.

Mae Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod 90% o'n gorsafoedd wedi cael eu mabwysiadu erbyn y bumed flwyddyn. Mae hynny'n golygu 222 o orsafoedd lle gall cymunedau greu argraffiadau cadarnhaol ar gyfer pobl leol ac ymwelwyr. Erbyn y bumed flwyddyn, byddwn yn buddsoddi dros £66,000 y flwyddyn mewn Mabwysiadu Gorsafoedd, a bydd cyfle i Mabwysiadwyr gynnig am arian ychwanegol i wneud gwelliannau priodol.

Canolfannau Cymunedol

Rydym yn ymwybodol fod llawer o gymunedau'n brin o le i roi cyfle priodol i'w trigolion drefnu gweithgareddau cymunedol a chymryd rhan ynddynt. Er mwyn helpu i fynd i'r afael â hyn, bydd Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru yn sefydlu hyd at 40 o Ganolfannau Cymunedol newydd ar draws y rhwydwaith. Fel rhan o'n cynllun Datblygu Cymdeithasol a Masnachol, bydd y canolfannau hyn yn cael eu

datblygu drwy ddefnyddio manau segur yn y gorsafoedd ac o'u hamgylch. Byddant yn cael eu hadnewyddu'n llwyr ac yn cael eu cynnal a'u cadw, a bydd Wi-Fi ar gael ynddynt. Bydd modd trefnu i ddefnyddio'r rhain ar gyfer amryw o weithgareddau cymunedol ac addysgol drwy gysylltu â'r tîm rheoli Cymunedau a Rhanddeiliaid.



Rheilffyrdd Cymunedol – Amserlen weithgareddau



BI 1 - 2018/2019

- Esefydlu'r Strwythur Rheoli Cymunedau a Rhanddeiliaid
- Cwblhau'r Adroddiad ar Reilffyrdd Cymunedol
- Cytuno ar Ymrwymadau Lefel Gwasanaeth y Rheilffyrdd Cymunedol
- Strategaeth Ymgysylltu'r Rheilffyrdd Cymunedol



BI 2 - 2019/2020

- Sefydlu 3 Partneriaeth Rheilffyrdd Cymunedol newydd
- Sefydlu 21 o Fabwysiadwyr Gorsafoedd newydd.
- Recriwtio 11 Llysgennad Cymunedol
- Recriwtio Rheolwr Marchnata Partneriaethau
- Recriwtio Cynorthwydd Marchnata Graddedig
- Cynnal hyd at 6 chynhadledd Rheilffyrdd Cymunedol.
- Cynllun Marchnata Rheilffyrdd a Thwristiaeth.
- Y Gronfa Her – £60k.



BI 3 - 2020/21

- Sefydlu 2 Bartneriaeth Rheilffyrdd Cymunedol newydd.
- Sefydlu 32 o Fabwysiadwyr Gorsafoedd newydd
- Recriwtio 11 Llysgennad Cymunedol newydd dan brentisiaeth.
- Y Gronfa Her – £70k



Yr Adroddiadau Nesaf

Bydd yr adroddiadau Rheilffyrdd Cymunedol blynyddol yn cael eu cyhoeddi bob mis Rhagfyr hyd at ddiwedd Cytundeb y Grant, er mwyn dangos ein hymrwymiad di-dor at ein Rheilffyrdd Cymunedol. Wrth i waith ein Partneriaethau, ein Mabwysiadwyr Gorsafoedd a phartneriaid cymunedol eraill ddatblygu ac esblygu, bydd yr adroddiadau hyn yn esblygu hefyd i ddathlu ein llwyddiannau cyffredin a dadansoddi'r heriau a wynebwn gyda'n gilydd.

Bydd dwy elfen i'r data a gyflwynir yn yr adroddiadau nesaf; data craidd sefydlog er mwyn gallu craffu ar ein perfformiad yn erbyn y targedau a osodwn i ni'n hunain, a naratif hyblyg a fydd yn rhoi'r gallu i'n cymunedau eu hunain drafod cynnydd.

Credwn y gallwn fod yn gwmni rheilffordd gwahanol; cwmni rheilffordd sy'n bodoli er mwyn dwyn manteision cymdeithasol,

economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol i bobl Cymru a'r Gororau. Gyda'r pwrpas hwnnw'n ein symbylu, edrychwn ymlaen at gydweithio gyda'n cymunedau i ail-adeiladu'r berthynas rhwng ein rheilffyrdd a'r cymunedau a wasanaethwn, gan ddysgu oddi wrth ein gilydd, a helpu ein gilydd. Gyda'n gilydd, gallwn greu gwasanaeth y gall pobl ein rhwydwaith fod yn falch ohono.

Mae hwn yn gyfnod cyffroes i deithio ar drenau yng Nghymru a'r Gororau, ac edrychwn ymlaen at weithio gyda'r Rheilffyrdd Cymunedol i gyflwyno ein cynlluniau uchelgeisiol gyda'n gilydd.

Gobeithio eich bod yn gweld yr adroddiad hwn yn fuddiol. Byddem yn falch o unrhyw adborth a fyddai'n helpu i wella'r fformat a'r cynnwys.

Hugh J Evans

Pennaeth Cenedlaethau'r Dyfodol a Rhanddeiliaid (Interim)
Ebrill 2019



Atodiadau – Proffiliau'r Rheilffyrdd Cymunedol



Calon Cymru

Arian a roddwyd i'r Bartneriaeth

2019/20 - £55k

Swyddog Partneriaeth Rheilffyrdd Cymunedol

Andrew Cook (interim)

Aelodau'r Bwrdd

Cadeirydd: David Edwards
Bwrdd o 6 o Gyfarwyddwyr ac 16 o aelodau.
Mae Fforwm Lein Calon Cymru yn rhan gorfforedig o'r Cwmni Datblygu ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o'r canlynol:

- Network Rail.
- Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru
- Dinas a Sir Abertawe .
- Cyngor Sir Gâr
- Cyngor Sir Powys.
- Cyngor Swydd Amwythig.
- Cymdeithas Teithwyr Lein Calon Cymru.

Gwefan

www.heart-of-wales.co.uk/cy/home

Lein

Lein Calon Cymru (Abertawe i Amwythig).

Lleoliad y brif swyddfa

Gorsaf Llanwrtyd, Heol yr Orsaf, Llanwrtyd, Powys, LD5 4RW.

Cefndir economaidd a chymdeithasol y lein

Mae'r llwybr yn gwasanaethu coridor amrywiol, sy'n wledig yn bennaf, ac mae'n cynnwys trefi marchnad deniadol fel Amwythig, Church Stretton, Craven Arms, Trefyclo, Llandrindod, (Llanfair-ym-Muallt), Llanwrtyd, Llanymddyfri a Llandeilo. Mae llawer iawn o atyniadau i ymwelwyr ar hyd lein Calon Cymru, a gellir cael mynediad at Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Swydd Amwythig, Cwm Elan, Bannau Brycheiniog, Llwybr Arfordirol y Mileniwm Llanelli, Bae Abertawe a Phenrhyn Gŵyr, i enwi dim ond rhai. Ar ôl cwblhau Llwybr Cerdded hir Lein Calon Cymru – llwybr sy'n croesi gorsafoedd ar hyd y lein – yn ystod mis Ebrill 2019, bydd cyfleoedd newydd gwych i ymestyn ein cyrhaeddiad yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Mae rhai trefi ac ardaloedd gwledig sy'n cael eu gwasanaethu gan y lein, er enghraifft yr hen gymunedau glo yn Rhydaman a Llanelli, yn dal i wynebu amddifadedd sylweddol



mewn mannau, er bod llawer o dai newydd wrthi'n cael eu datblygu ar hyd pen deheuol y lein. Mae creu mynediad gwell at swyddi wastad wedi cael ei ystyried yn bwysig er mwyn sicrhau gwasanaeth gwell, yn enwedig ar hyd y rhan hon o'r llwybr. Mae Abertawe ac Amwythig yn gytreffi rhanbarthol pwysig, sy'n darparu addysg uwch, canolfannau siopa mawr, gwaith a chyfleusterau cymdeithasol a diwylliannol eraill ar gyfer yr ardal.

Mae'r lein yn gwasanaethu llawer o gymunedau gwledig lle mae gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus yn gyfyngedig iawn. I'r cymunedau

Marchnadoedd allweddol

Ymwelwyr – gan gynnwys pobl sy'n ymweld am y diwrnod.

Cymudwyr – Unigolion sy'n teithio i'r gwaith, i'r ysgol ac i'r coleg, yn enwedig y rheini sy'n mynd i Amwythig, Llanelli, Abertawe a Llandrindod ac yn ôl.

Cynlluniau ar gyfer 2019/20

- Hyrwyddo Lein Calon Cymru
 - Cryfhau presenoldeb ar-lein gyda gwefan newydd (<http://www.heart-of-wales.co.uk/cy/home>).
 - Gweithio ochr yn ochr â llwyfannau cyfryngau cymdeithasol fel rhan allweddol o'r strategaeth farchnata newydd.
 - Rhaglen ddigwyddiadau ar gyfer haf 2019.
 - Diweddarau'r holl ddeunyddiau hyrwyddo i adlewyrchu'r gweithredwr rheilffordd newydd.
- Cefnogi'r Uned Fusnes yng Ngorsaf Llanymddyfri (ystafelloedd te sy'n cael eu rhedeg gan y gymuned) a Llandeilo (Canolfan Fwyd y Mynydd Du). Mae'r lein hon mewn lle da i ddatblygu rhagor o weithgarwch Uned Fusnes yn yr orsaf. Byddai hyn hefyd yn ei gwneud yn bosib pwyntio grym gwario'r sector rheilffyrdd i gyfeiriad busnesau bach lleol yng nghefn gwlad
- Llwybr Cerdded – Mae prosiect peilot newydd i ymchwilio i fuddion y llwybr cerdded newydd ar yr ardal leol wedi cael ei gwblhau yn Llanymddyfri

hyn, mae Lein Calon Cymru yn hanfodol, yn sicrhau bod pobl leol yn gallu cael mynediad at waith, canolfannau siopa a gwasanaethau hanfodol fel iechyd ac addysg.

Mae gan y rheilffordd botensial anferthol i fod yn goridor ar gyfer datblygu busnesau bach lleol, ac mae rhai camau eisoes wedi'u cymryd, o dan law Unedau Busnes Rheilffyrdd Cymunedol.

Teithio ar gyfer Busnes – Mynediad at ganolfannau cynadledda yn Llandrindod, Abertawe, Amwythig a Llanelli. Mae tref Llandrindod yn cael enw da iawn, a hynny'n haeddiannol ddigon, fel canolfan gynadledda bwysig, ond nid yw'r rheilffordd wedi manteisio ar hyn hyd yma.

a'r ardal. Rydym yn awyddus i gyflwyno'r rhaglen erbyn hyn, ac mae Cyngor Sir Powys eisoes wedi mynegi diddordeb.

- Datblygiadau ac asesiadau prosiect y mae angen eu hystyried;
 - Llwybrau treftadaeth gyda'r elusen Caring for God's Acre, sy'n rhoi pwyslais ar fynediad i bobl anabl a'u cysylltu â'r Llwybr.
 - Astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer llogi beiciau yn Llandeilo (i gysylltu'r llwybr beiciau rhwng Caerfyrddin a Llandeilo).
 - Astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer opsiynau i wella mynediad at Orsaf Builth Road.
 - Datblygu Celf ar y Lein fel digwyddiad blynyddol
- Hybu Lein Calon Cymru drwy wella cyfleoedd marchnata Digidol.
- Gwefan ar gyfer grwpiau mabwysiadu gorsafoedd.





Dyffryn Conwy

Arian a roddwyd i'r Bartneriaeth

2019/20 - £55k.

Swyddog Partneriaeth Rheilffyrdd Cymunedol

Melanie Lawton.

Aelodau'r Bwrdd

Cadeirydd: Y Cynghorydd Philip C Evans, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cynrychiolwyr Trafnidiaeth (Swyddogion ac Aelodau Etholedig) o'r canlynol:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Gwynedd
- Rheilffordd Ffestiniog
- Heddlu Trafnidiaeth Prydain
- Network Rail
- Gwasanaethau Rheilffyrdd TrC
- Cynrychiolydd Mabwysiadu Gorsafoedd
- Cynghorwyr Cyfetholedig

Website

www.conwyvalleyrailway.co.uk/cy/

Lleoliad y brif swyddfa

- Cynhelir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Yn gweithio o swyddfeydd yng Nghyffordd Llandudno, Mochdre neu Fae Colwyn

Lein

Lein Dyffryn Conwy – rhwng Llandudno a Blaenau Ffestiniog

Cefndir economaidd a chymdeithasol y lein

Prif drefi ar y daith; Blaenau Ffestiniog, Llandudno, Betws y Coed a Llanrwst .

Blaenau Ffestiniog

Dyma le sy'n newid yn gyflym. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r dref hon, a arferai fod yn enwog drwy'r byd am ei llechi, wedi dod yn gartref i un o ganolfannau gweithgareddau mwyaf arloesol Gogledd Cymru. Erbyn hyn, mae'r tomenni llechi enwog sy'n teyrnasu dros y dref yn hafan i feicwyr mynydd a'r rheini sydd am fentro ar hyd y wifren wib, tra mae'r ceudyllau hanesyddol yn gartref i drampolîn tanddaearol mwyaf y byd – a rhagor o wifrau gwib. Mae gwelliannau i ganol y dref wedi rhoi bywyd newydd i'r siopau, ac mae geiriau, dywediadau, geirfa'r chwarel a barddoniaeth leol i'w gweld wedi'u naddu ar hyd y strydoedd



Llandudno

Mae Llandudno, un o drefi gwyliau mwyaf poblogaidd yr ardal, yn ffynnu. Mae'n debyg nad yw'r dref erioed wedi bod mor brysur, ac mae nifer y siopau gweigion yn is nag erioed bron. Mae Llandudno hefyd wedi denu buddsoddiad sylweddol dros y flwyddyn a fu, ac mae sawl buddsoddiad yn yr ardal yn ôl y tirlfeddiannwr, Ystadau Mostyn. Mae digwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol wedi cael eu cynnal yn y dref, gan gynnwys

- Diwrnod y Lluoedd Arfog ym mis Mehefin 2018
- Gŵyl y Môr, Pencampwriaethau Pysgota'r Byd
- Penwythnos Celfyddydau Llawn
- Mae'r ganolfan gynadledda, Venue Cymru, yn denu digwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol, gan gynnwys cynadleddau pleidiau gwleidyddol.

Conwy Wledig (yn cynnwys Dyffryn Conwy a Llanrwst)

Yn ôl gwaith ymchwil diweddar, mae cymunedau cryf yn ardaloedd gwledig Conwy, ac mae'r gymdeithas yn weithgar yn y pentrefi, i'r rheini sy'n awyddus i gyfrannu a chymryd rhan.

Mae cymunedau gwledig wedi mynegi pryder ynghylch dyfodol eu pentrefi. Mae diboblogi ymysg y bobl ifanc oherwydd prinder cyfleoedd gwaith a thai fforddiadwy, a gan fod cyfleusterau fel siopau pentref lleol yn cau. Mae'r cymunedau'n pwysleisio pa mor bwysig yw ysgol y pentref i ddenu teuluoedd i gymunedau gwledig a'u cadw yno.

Mae signal data ffonau symudol yn wan mewn rhai ardaloedd gwledig. Mae hyn yn cael effaith negyddol ar drigolion gan nad ydynt yn gallu defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol na chael gafael ar gyngor, gwybodaeth na gwasanaethau ar eu ffôn.

Mewn ardaloedd gwledig, mae trafndiaeth gyhoeddus yn hanfodol i'r defnyddwyr hynny sy'n dibynnu ar y gwasanaeth.

Marchnadoedd allweddol

- Twristiaeth – y Llwybr Antur gyda Zip World, ac mae Llandudno yn un o drefi gwyliau enwocaf Cymru
- Hamdden – Cerdded
- Siopa – Parc Llandudno a Chyffordd Llandudno

Prif weithgareddau

- Gweithio gyda phlant a phobl ifanc
- Ymgysylltu â'r gymuned
- Ymgysylltu â busnesau
- Marchnata a Hyrwyddo

Cynlluniau ar gyfer 2019/20

- Ymgysylltu â'r gymuned, gan gynnwys gwaith maes gydag ysgolion. Gwella cysylltiadau gyda chymunedau lleol a'u rheilffordd
- Gwaith cydweithredol gyda rhanddeiliaid a phartneriaid ariannu
- Llundio amserlenni lleol sy'n benodol i'r lein
- Cynllun marchnata 2019/20, gan gynnwys datblygu'r wefan a'r cyfryngau cymdeithasol
- Cyflwyno Fideo Diogelwch ar y Rheilffyrdd
- Digwyddiadau Nadolig gydag ysgolion
- Yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst





Lein y Cambrian

Arian a roddwyd i'r Bartneriaeth

2019/20 - £55k.

Swyddog Partneriaeth Rheilffyrdd Cymunedol

Claire Williams.

Aelodau'r Bwrdd

Cadeirydd: i'w benodi

Cynrychiolwyr (Swyddogion ac Aelodau Etholedig) o'r canlynol:

- Cyngor Ceredigion (yr Awdurdod sy'n Cynnal)
- Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru, gan gynnwys rheolwyr Hygyrchedd a Rhanddeiliaid
- Cyngor Swydd Amwythig
- Cyngor Gwynedd
- Cyngor Powys
- Trenau Bach Arbennig Cymru
- Cynrychiolwyr Adrannol Llywodraeth Cymru
- Cymdeithas y Partneriaethau Rheilffyrdd Cymunedol
- Network Rail
- Cymdeithasau Twristiaeth Lleol
- Aelodau Annibynnol o'r Gymuned sy'n gallu cyfrannu at y Cynllun Busnes Blynyddol

Gwefan

www.walesonrails.com.cy

Lleoliad y brif swyddfa

Cyngor Sir Ceredigion, Aberystwyth

Lein

- Aberystwyth – Amwythig – Prif Lein y Cambrian
- Machynlleth – Pwllheli – Lein Arfordir y Cambrian

Cefndir economaidd a chymdeithasol y lein

Ers gwella'r amserlenni yn 2015, mae lefelau diweithdra ar y brif lein wedi gostwng yng nghymunedau gwledig Caersŵs, y Drenewydd a'r Trallwng, wrth i bobl allu manteisio ar swyddi yn Amwythig, Birmingham a Telford. Mae'r cyfleoedd addysg i bobl ifanc wedi cynyddu hefyd gan fod modd iddynt gael mynediad at addysg bellach yng ngholeg Amwythig erbyn hyn, diolch i'r gwasanaethau trên hwylus.

Mae Machynlleth yn hollbwysig i Reilffordd y Cambrian; mae holl symudiadau'r trenau ar hyd y 130 o filltiroedd o draciau i gyd yn cael eu rheoli o'r fan hon, ac mae'r trenau'n cael eu gwasanaethu yma hefyd.

Mae twristiaeth yn farchnad bwysig iawn i Lein y Cambrian. Mae'r rheilffordd yn rhoi mynediad i lawer o leoliadau gwyliau yng Nghanolbarth Cymru, ac mae'n bleser mynd arni i fwynhau'r golygfeydd godidog a welir ar hyd a daith. Yn wir, yn ddiweddar, cafodd Lein Arfordir y Cambrian ei chynnwys yn rhestr papur newydd y Guardian o'r "10 o deithiau trên mwyaf epig yn y byd"!



Cynhelir teithiau ar gyfer pobl sy'n ymddiddori mewn rheilffyrdd hefyd, sy'n cynnwys llawer o reilffyrdd stêm cul enwog; mae'r rhain yn cynnwys nodiadau manwl ar brif lwybr y lein, cyn orsafoedd,

leiniau sydd wedi cau, beth i'w weld a sut oedd pethau pan ddaeth oes y stêm i ben ddiwedd y 50au/ddechrau'r 60au.

Marchnadoedd allweddol

- Cymudwyr
- Twristiaeth / Hamdden
- Addysg – Prifysgol Aberystwyth / Coleg Amwythig
- Siopa

Prif weithgareddau

- Hyrwyddo'r Cynllun Waled Oren
- Hyrwyddo'r Rheilfordd a Thwristiaeth
- Digwyddiad Rheilffyrdd Cymunedol yn y Ddinas
- Ail-frandio'r Wefan
- Marchnata ar y Cyfryngau Cymdeithasol
- Ymgynghoriad Rheilffyrdd Cymunedol
- Fideo Diogelwch ar Groesfannau

Cynlluniau ar gyfer 2019/20

- Cael Achrediad yr Adran Drafnidiaeth
- Statws Deall Dementia i'r Drenewydd a'r Trallwng
- Gweithio tuag at sicrhau bod pob gorsaf yn Deall Dementia
- Wythnos Genedlaethol Diogelwch ar y Rheilffyrdd (2019)
- Ail-frandio Golygfeydd Cymru (Scenic Wales)
- Gorffen y fideo diogelwch ar groesfannau, a'i lansio
- Gwella'r Cynllun Waled Oren gyda Choleg Ceredigion
- Datblygu gwefan Cymru ar Gledrau ymhellach
- Datblygu llwybrau cerdded Deall Dementia
- Digwyddiadau Ymgysylltu â'r Gymuned mewn ardaloedd lle ceir Gorsafoedd gydag adeiladau segur





Caer Amwythig

Arian a roddwyd i'r Bartneriaeth

2019/20 - £55k.

Swyddog Partneriaeth Rheilffyrdd Cymunedol

Sheila Dee.

Aelodau'r Bwrdd

Cadeirydd: Y Cynghorydd David A Bithell, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cynrychiolwyr (Swyddogion ac Aelodau Etholedig) o'r canlynol:

- Cyngor Swydd Amwythig
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Cyngor Caer a Gorllewin Swydd Gaer
- Severn Dee Travel
- Cymdeithas Defnyddwyr Rheilffyrdd Amwythig Caer (SCRUA)
- Heddlu Trafnidiaeth Prydain
- Network Rail
- Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru
- Cambrian Railway Heritage

Gwefan

www.chester2shrewsbury.co.uk

Lleoliad y brif swyddfa

- Cynhelir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Gweithle: Gartref / Swyddfa Gorsaf Gobowen

Lein

Caer – Wrecsam – Amwythig

Cefndir economaidd a chymdeithasol y lein

Yn hanesyddol, mae cysylltiad agos wedi bod rhwng Caer a Wrecsam, gyda llawer o bobl yn manteisio ar y tai rhatach ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae llawer o bobl yn byw yn Wrecsam ond yn teithio i'w gwaith yng Nghaer, Manceinion neu Lerpwl.

Mae Campws Prifysgol ar draws y lein yng Nghaer, Wrecsam ac Amwythig, ond mae llawer yn astudio yn Lerpwl, Manceinion a Wolverhampton hefyd, ac yn aml iawn yn teithio bob dydd.

Mae'r lein yn cael ei defnyddio at ddibenion teithio i'r gwaith, addysg a hamdden, ond nid oes traffig ysgolion arni.

Mae patrwm y llif yn dangos bod cymudwyr/myfyrwyr o'r Waun, Rhiwabon a Wrecsam yn teithio'n bennaf i'r gogledd i Wrecsam, Caer a thu hwnt, tra mae'r rheini yn y Waun, a Gobowen yn arbennig, yn teithio i'r de i Amwythig, Telford a Birmingham.



Mae Caer ac Amwythig yn fannau deniadol ar gyfer aros dros nos i'r rheini sydd ar y lein hon, ac mae adloniant, digwyddiadau a thai bwyta da ar gael ynddynt.

Mae digwyddiadau a gynhelir y tu allan i lwybr y lein yn achosi problemau o ran capasiti, gan gynnwys:

- Diwrnodau Rasys Caer – byddant yn cael eu cynnal rhwng mis Mai a mis Medi, ac mae'r galw'n ymestyn i'r de i Telford

- NEC Birmingham – pan fydd digwyddiadau poblogaidd yn cael eu cynnal, fel y Good Food Show, BBC Gardeners World Live, Clothes Show ac ati

- Gemau Pêl-droed a Rygbi Rhyngwladol yng Nghaerdydd. Mae llawer o ddilynwyr ar y lein hon, ac mae problemau o ran capasiti ac amllder yn gwneud iddynt beidio â defnyddio'r rheilffordd.

Marchnadoedd allweddol

- Cymudwyr
- Hamdden
- Siopa
- Addysg
- Twristiaeth

Prif weithgareddau

- Datblygu Uned Fusnes Rheilffyrdd Cymunedol
- Gweithio gyda grwpiau amrywiol
- Datblygu Prosiectau Cymunedol
- Hyrwyddo
- Severn Dee Travel

Cynlluniau ar gyfer 2019/20

- Grŵp Cymunedol Gobowen – Grŵp Gwella Ardal Gobowen – i adnewyddu adeiladau'r orsaf. Symud ymlaen gydag arian grant i wneud gwaith adnewyddu yng Ngobowen.
- Adnewyddu Caffi Gobowen.
- Mapiau cyfeiriad newydd ar gyfer yr ysbyty orthopedeg.
- Symud ymlaen gyda phrosiect Porth Rhiwabon, a chynnwys cysylltiadau ymlaen ac atyniadau ar hyd Dyffryn Dyfrdwy.
- Bod yn rhan o'r gwaith o ail-ddylunio Golygfeydd Cymru ar y Trên
- Hyrwyddo cyfleoedd twristiaeth mewn gorsafedd eraill ar hyd y lein, gan weithio gyda grwpiau cymunedol lleol
- Bod yn rhan o CRIC 2019 yng Ngorsaf Lime Street, Lerpwl
- Gwaith hyrwyddo ar y cyd





Lein y Gororau

Arian a roddwyd i'r Bartneriaeth

2019/20 - £55k.

Swyddog Partneriaeth Rheilffyrdd Cymunedol

Jamie Sant.

Aelodau'r Bwrdd

Cadeirydd Presennol: Marion Atkinson – Merseytravel
Cynrychiolwyr (Swyddogion ac Aelodau Etholedig) o'r canlynol:

- Cyngor Caer a Gorllewin Swydd Gaer
- Cyngor Sir y Fflint
- Merseytravel
- Network Rail
- Cyngor Wirral
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru
- Grŵp Defnyddwyr Rheilffyrdd

Gwefan

www.borderlandline.com

Lleoliad y brif swyddfa

Gweinyddir y swydd ar hyn o bryd gan Gyngor Sir y Fflint, Depo Alltami, Ffordd yr Wyddgrug, CH7 6LG.

Lein

Wrecsam Canolog/Wrecsam Cyffredinol, Gwersyllt, Cefn-y-Bedd, Caergwrle, Yr Hôb, Penyffordd, Bwcle, Hawarden, Shotton, Hawarden Bridge, Neston, Heswall, Upton, Bidston.

Cefndir economaidd a chymdeithasol y lein

Roedd arfarniad gwella gwasanaeth y lein AECOM yn 2014 yn asesu gwerth am arian ar gyfer gwneud gwelliannau arfaethedig i'r gwasanaeth. Un elfen bwysig oedd sicrhau bod modd darparu ar gyfer twf mewn poblogaeth a gwaith yn y dyfodol yn sgil ymestyn Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy/Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy. Yn ogystal â hyn, mae'r asesiad yn cefnogi buddion economaidd ehangach a manteision eraill posib drwy "wariant" twristiaeth ychwanegol o Gymru i Ardal Dinas Lerpwl, ac o Lerpwl i Gymru hefyd, gan gofio bod pobl wedi bod yn dod o Lerpwl i Ogledd Cymru ers talwm iawn.

Mae'r amserlen bresennol wedi'i llunio gyda'r bwriad o uchafu'r cyfleoedd cyfnewid gyda Lein Wirral gwasanaethau Merseyrail, gan gynyddu cyfleoedd ar gyfer teithio at ddibenion Cymudo, Addysg, Hamdden a domestig.



Mae galw am gysylltiad â gwasanaethau rhyngwladol yng Ngorsaf Lime Street, a chyfle i gyfnewid ar gyfer Maes Awyr John Lennon Lerpwl. Hefyd, y cysylltiadau rhwng Shotton a

Maes Awyr Manceinion, ac Arfordir Gogledd Cymru/Caergybi/Caer/Manceinion/Lerpwl a Wrecsam ar gyfer Amwythig/Birmingham a Chaerdydd.

Marchnadoedd allweddol

Yn ôl arfarniad o astudiaeth i wella'r siwrnai rhwng Wrecsam a Bidston, mae 65% o deithiau'n fewnol i'r lein. Shotton yw'r rhaniad rhwng y Gogledd

a'r De; mae 17% o gyfanswm y galw am y lein yn cyfnewid yn Bidston

Prif weithgareddau

- Gwelliannau o ran y dewis o docynnau e.e. ychwanegwyd tocynnau Multiflex symudol yn ystod 2018, gydag estyniad i gynnwys gorsafoedd yn Lloegr – Neston, Heswall, Upton a Bidston.
- Hysbysebu gan dargedu marchnadoedd Lerpwl a Wirral. Marchnata ymhlith y farchnad cymudwyr a'r farchnad hamdden, gydag Amseroedd Trenau Merseyrail.
- Parhau â'r gwaith i wella hygyrchedd a chyfnewid moddol yng Ngorsaf Shotton e.e. gwaith i'r llwybr cerdded a chyfnewidfa aml-foddol yn y dyfodol i wella'r cysylltiad â bysiau.
- Darparu gwefan symudol newydd gyda phorthiant data byw di-dor o Amserlen National Rail, gan hybu gwybodaeth amser real i roi hyder i deithwyr.
- Gweithio i gefnogi'r astudiaeth a'r achos busnes ar gyfer pedwar trêrn yr awr.
- Gweithio gyda'r cwmni datblygu ARCADIS, SUSTRANS ac awdurdod Sir y Fflint yng nghyswllt Porth y Gogledd, ac ail-edrych ar waith llwyddiannus blaenorol ar gyfer y cynllun teithio ym Mharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy a Shotton, sydd wedi ennill gwobrau

Cynlluniau ar gyfer 2019/20

- System Rheoli Cynnwys newydd, ac adnewyddu Gwefan Lein y Gororau, gan alluogi Hygyrchedd Dyfeisiau Symudol, gyda hysbysebion wedi'u cysylltu o orsafoedd rheilffordd.
- Ymgyrch farchnata newydd i dynnu sylw at welliannau i'r amserlen o 2019 ymlaen.
- Ail ddigwyddiad cymunedol yn Heswall, yn sgil galw gan y boblogaeth leol yn 2018.
- Hyrwyddo Unedau DMU dosbarth 230 yn disodli'r rhai dosbarth 150 presennol yn ystod 2019.
- Datganiad i'r wasg ar gyfer gwaith celf sydd wedi'i gwblhau yng ngorsafoedd Wrecsam a Bidston.
